

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Deiseb i adalw Aelod Seneddol - canllawiau i ymgyrchwyr deisebau

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sy'n
ymgyrchu mewn deiseb adalw sydd am
ddeall y rheolau ar wariant a rhoddion

Cynnwys:

Y cyfnod a reoleiddir

Faint y gallwch ei wario

Y gweithgareddau a gwmpesir gan y rheolau

Pa roddion y gallwch eu derbyn

Cofnodi gwariant a rhoi gwybod amdano

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith os dilynwch y canllawiau hyn.

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sy'n arfer da gofynnol, yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn dilyn y rheolau?

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol na rheoleiddiol, gallwch fod yn destun sancsiynau troseddol.

Os derbyniwch roddion na allwch eu derbyn yn gyfreithiol, gallwn wneud cais i'r llysoedd am iddynt gael eu fforffedu.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl reoleiddio'r Comisiwn yn:

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/adroddiadau-ariannol>

Gwariant a rhoddion

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

y rheolau ar wariant a rhoddion mewn perthynas â deiseb adalw.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- y cyfnod a reoleiddir
- faint y gallwch ei wario
- y gweithgareddau a gwmpesir gan y rheolau
- pa roddion y gallwch eu derbyn
- sut i wirio rhoddion a gewch
- cofnodi gwariant a rhoi gwybod amdano

Ffurflenni ac esboniadau:

Ffurflen gwariant ar ddeisebau a rhoddion

- [PDF](#)
- [Excel](#)
- [Nodiadau eglurhaol](#)

Cyflwyniad

Cyflwynodd Deddf Adalw ASau 2015 broses lle gall AS golli ei sedd yn Nhŷ'r Cyffredin os bydd deiseb lwyddiannus i'w adalw. Mae'r Ddeddf yn nodi'r amodau ar gyfer ysgogi deiseb adalw ac yn cyflwyno'r rheolau sy'n rheoli pobl a sefydliadau sy'n ymgyrchu o blaid neu yn erbyn deiseb adalw.

Rydym yn galw pobl a sefydliadau sy'n ymgyrchu mewn deiseb adalw yn '**ymgyrchwyr deisebau**'. Mae'n rhaid i ymgyrchwyr deisebau ddilyn rheolau ar bwy y gallant dderbyn rhoddion ganddynt a faint y gallant ei wario. Rhaid i ymgyrchwyr deisebau cofrestredig hefyd roi gwybod am eu rhoddion a gwariant ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben.

Rôl y Comisiwn Etholiadol yn y broses yw rhoi cyngor a chanllawiau er mwyn helpu pobl i ddeall y rheolau. Gallwn wneud cais i'r llysoedd am i roddion nas caniateir gael eu fforffedu fel arall; **nid** ydym yn rheoleiddio'r rheolau ar wariant a rhoddion. Mater i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron fydd penderfyniadau ar ymchwilio i unrhyw droseddau a'u herlyn, a'u lle nhw yw ystyried honiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rheolau ar wariant a rhoddion.

Mae **Adran A** yn nodi'r rheolau ynglŷn â faint y gall ymgyrchwyr deisebau ei wario, y gweithgareddau a gwmpesir gan y rheolau a pha wybodaeth y mae angen ei chofnodi.

Mae **Adran B** yn nodi'r rheolau ynglŷn â rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr deisebau cofrestredig. Mae hyn yn cwmpasu sut i wirio a allwch dderbyn rhodd a pha gofnodion y mae'n rhaid i chi eu cadw. Mae rhoddion yn cynnwys cyfraniadau o arian, nwyddau neu wasanaethau tuag at eich gwariant.

Mae **Adran C** yn egluro'r dyddiadau cau a'r cyfrifoldebau ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben.

Os ydych yn ymgyrchydd deisebau cofrestredig, rhaid i chi roi gwybod am eich gwariant ar ddeisebau i'r Swyddog Deisebau yn y DU neu'r Prif Swyddog Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben. Rhaid i ymgyrchwyr

Mae'r ddogfen hon yn rhan o'n cyfres o ganllawiau i ymgeiswyr deisebau.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am agweddau eraill ar wrthwynebu deiseb adalw ar y dudalen canllawiau i [ymgeiswyr deisebau](#).

deisebau cofrestredig hefyd roi gwybod am roddion a ddaeth i law oni bai eu bod yn blaid wleidyddol.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro sut y dylech reoli eich gwariant a'ch rhoddion fel y gallwch roi gwybod amdanynt yn briodol ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben.

Pryd y gellir cychwyn deiseb adalw?

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno proses sy'n nodi y bydd AS yn colli ei sedd yn Nhŷ'r Cyffredin os bydd deiseb i'w adalw yn llwyddiannus.

Bydd y Swyddog Deisebau yn agor deiseb adalw ar ôl i Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ei hysbysu bod y canlynol wedi digwydd i AS:

- mae wedi cael ei euogfarnu o drosedd ac wedi cael dedfryd o garchar (yn cynnwys dedfryd wedi'i hatal) neu wedi'i orchymyn i gael ei gadw yn y ddalfa, heblaw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl yn unig
- mae wedi cael ei wahardd o Dŷ'r Cyffredin am 10 diwrnod eistedd neu 14 o ddiwrnodau calendr, neu
- mae wedi cael ei euogfarnu o ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar gyfer hawliadau lwfans o dan Ddeddf Safonau Seneddol 2009.

Yn achos cyhuddiad, ni chaiff y ddeiseb adalw ei hagog oni fydd y cyfnod apelio wedi dod i ben heb i'r euogfarn, y ddedfryd neu'r gorchymyn fod wedi cael eu gwrthdroi neu heb i bob apêl gael ei chlywed a'i gwrthod.

Ar ôl i Swyddog Deisebau agor deiseb adalw, bydd ar agor i'w llofnodi am 6 wythnos. Os bydd o leiaf 10% o'r etholaeth yn llofnodi'r ddeiseb, bydd yr AS yn colli ei sedd a chaiff isetholiad ei gychwyn. Gall yr AS a gafodd ei adalw sefyll fel ymgeisydd yn yr isetholiad.

Os bydd un o'r amodau uchod wedi'i fodloni ond:

- caiff etholiad cyffredinol Senedd y DU ei gynnal o fewn y 6 mis nesaf
- mae deiseb adalw eisoes yn cael ei chynnal mewn perthynas â'r AS, neu
- mae sedd yr AS eisoes yn wag

ni fydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hysbysu'r Swyddog Deisebau ac ni chaiff deiseb adalw ei hagog.

Bydd deiseb ar agor i'w llofnodi am 6 wythnos, oni chaiff ei therfynu cyn hynny os:

- bydd sedd yr AS yn mynd yn wag am unrhyw reswm arall (fel ymddiswyddiad)
- caiff euogfarn, dedfryd o garchar neu orchymyn cadw ei (g)wrthdroi, neu
- bydd y Senedd yn galw etholiad cyffredinol Senedd y DU yn gynnar a gaiff ei gynnal o fewn 6 mis i hysbysiad y Llefarydd

Rolau

Rôl y Comisiwn Etholiadol yn y broses yw:

- rhoi cyngor a chanllawiau er mwyn helpu pobl i ddeall y rheolau
- fforffedu rhoddion nas caniateir, os bydd yn angenrheidiol yn ôl gorchymyn llys
- cyhoeddi adroddiad ar unrhyw faterion yn ymwneud â gweinyddu deiseb adalw a'r fframwaith ar gyfer gwariant ar ymgyrchu a rhoddion yn y digwyddiadau hyn.

Rôl y Swyddog Deisebau yw:

- agor deiseb adalw
- hysbysu etholwyr bod deiseb adalw wedi'i hagor
- goruchwyllo'r gwaith o weinyddu'r ddeiseb, yn cynnwys cyhoeddi cofrestr o etholwyr a all lofnodi'r ddeiseb a hysbysu'r etholwyr hynny am y ddeiseb
- cyhoeddi'r canlyniad, yn cynnwys hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
- derbyn ffurflenni rhoddion a gwariant a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Yr un yw'r Swyddog Deisebau a'r Swyddog Canlyniadau mewn etholiad.

Rôl yr heddlu yw:

- ymchwilio i achosion o dorri'r gyfraith
- gorfodi cydymffurfiaeth â'r gyfraith

Crynodeb o rwymedigaethau

Ymgyrchwyr deisebau anghofrestredig

Os ydych yn ymgyrchydd deisebau anghofrestredig, mae gennych derfyn gwariant o **£500** ar weithgarwch ymgyrch deisebau yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Os byddwch am wario mwy na £500, rhaid i chi gofrestru gyda'r Swyddog Deisebau **cyn** i chi wario mwy na £500.

Rhaid i chi gadw cofnod o'r holl wariant ar ymgyrch deisebau er mwyn sicrhau nad ydych yn torri'r terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchydd anghofrestredig. Dylech hefyd gadw cofnod o'r holl roddion a gewch.

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben, **nid** oes raid i ymgyrchwyr deisebau anghofrestredig wneud y canlynol:

- cyflwyno ffurflen gwariant i'r swyddog deisebau
- cyflwyno ffurflen rhoddion neu
- cydymffurfio â'r terfynau amser ar gyfer derbyn neu dalu anfonebau.

Fodd bynnag, os byddwch yn mynd i wariant fel rhan o **ymgyrch ar y cyd** ag un neu fwy o ymgyrchwyr cofrestredig, dylech ddarparu'r canlynol i bob un o'r ymgyrchwyr cofrestredig hynny:

- cyfanswm eich holl wariant
- rhestr fanwl o'r hyn y gwariwyd pob swm arno

Mae hyn am fod yn rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nodi'r gwariant manwl yr aed iddo gan yr holl ymgyrchwyr y buont yn cydweithio â nhw mewn ymgyrch ar y cyd ar eu ffurflen i'r Swyddog Deisebau.

Rhaid i'r **holl** ddeunydd a argraffwyd ar gyfer y ddeiseb gynnwys argraffnod. Dylai'r holl ddeunydd electronig hefyd gynnwys argraffnod. Ceir manylion ar ein [taflen ffeithiau ar argraffnodau](#).

Ymgyrchwyr deisebau cofrestredig

Mae gan ymgyrchwyr deisebau cofrestredig derfyn gwariant o **£10,000** ar gyfer gweithgarwch ymgyrch deisebau.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gofnodi'r holl wariant, rhoddion a manylion perthnasol y rhoddion ar gyfer y math hwnnw o roddwr.

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben, rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud y canlynol:

- cyflwyno ffurflen gwariant i'r swyddog deisebau
- cydymffurfio â'r terfynau amser ar gyfer derbyn neu dalu anfonebau.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig hefyd gyflwyno ffurflen rhoddion heblaw ar gyfer pleidiau gwleidyddol (nad ydynt yn bleidiau 'llai').

Rhaid i'r **holl** ddeunydd a argraffwyd ar gyfer y ddeiseb gynnwys argraffnod. Dylai'r holl ddeunydd electronig hefyd gynnwys argraffnod. Ceir manylion ar ein [taflen ffeithiau ar argraffnodau](#).

Adran A - Eich gwariant

Mae'r adran hon yn nodi'r rheolau ynglŷn â faint y gall ymgeiswyr deisebau ei wario, y gweithgareddau a gwmpesir gan y rheolau a pha wybodaeth y mae angen ei chofnodi.

Trosolwg o'r rheolau gwariant

Mae'r rheolau ynglŷn â gwariant yn gymwys i wariant ar weithgareddau i hyrwyddo llwyddiant neu fethiant deiseb adalw yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Mae'r cyfnod a reoleiddir yn adeg benodol pan fydd y terfynau gwariant a'r rheolau yn gymwys. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 11.

Mae gwariant ar ddeisebau yn cynnwys unrhyw dreuliau yr eir iddynt, p'un a yw hynny ar nwyddau, gwasanaethau, eiddo neu gyfleusterau, at ddibenion hyrwyddo neu sicrhau llwyddiant neu fethiant deiseb adalw yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Mae hyn yn cynnwys:

- eitemau neu wasanaethau a brynwyd cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod hwnnw
- eitemau neu wasanaethau a roddwyd i chi am ddim neu a roddwyd i chi am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%

Ceir rheolau sy'n cwmpasu:

- pwy all awdurdodi gwariant a thalu am eitemau a gwasanaethau
- faint y gallwch ei wario
- pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at eich terfyn gwariant
- terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau
- pa gofnodion y mae'n rhaid i chi eu cadw
- sut a phryd rydych yn rhoi gwybod am eich gwariant

Yn yr adran ar wariant yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr unigolyn sy'n gyfrifol am wariant ar ymgyrchu. Ar gyfer ymgyrchwyr deisebau cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol fydd hwn (gweler tudalen 9).

Rhaid i'r **holl** ddeunydd a argraffwyd ar gyfer y ddeiseb gynnwys argraffnod. Dylai'r holl ddeunydd electronig hefyd gynnwys argraffnod. Ceir manylion ar ein [taflen ffeithiau ar argraffnodau](#).

Pryd y bydd y rheolau ynglŷn â gwariant a rhoddion o ran deisebau yn gymwys?

Mae'r rheolau ynglŷn â gwariant ar ddeisebau yn gymwys i'r holl ymgyrchwyr deisebau yn ystod y cyfnod a reoleiddir, a fydd:

- yn dechrau ar y diwrnod **ar ôl** i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r Swyddog Deisebau bod yr amodau ar gyfer agor deiseb wedi cael eu bodloni ac
- yn dod i ben **ar** y diwrnod y bydd y Swyddog Deisebau yn hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad y ddeiseb **neu** ar y diwrnod y bydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hysbysu'r Swyddog Deisebau bod y ddeiseb wedi dod i ben yn gynnar.

Bydd y ddeiseb ar gael i'w llofnodi am hyd at **6 wythnos**. Fodd bynnag, mae'r cyfnod a reoleiddir yn cynnwys amser i'r Swyddog Deisebau baratoi'r ddeiseb a chyfrif y llofnodion, felly gall y cyfnod a reoleiddir bara mwy na 6 wythnos.

Bydd deiseb yn dod i ben yn gynnar os:

- caiff etholiad cyffredinol nesaf Senedd y DU ei gynnal yn gynt a hynny o fewn chwe mis i hysbysiad y Llefarydd
- bydd sedd yr AS yn mynd yn wag am unrhyw reswm arall (fel ymddiswyddiad) neu
- caiff euogfarn, dedfryd o garchar neu orchymyn cadw yr AS ei (g)wrthdroi

Os caiff un o'r amodau hyn ei fodloni, daw'r cyfnod a reoleiddir i ben ar y diwrnod y bydd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn hysbysu'r Swyddog Deisebau bod y ddeiseb wedi dod i ben yn gynnar.

Dylech ofyn i'r Swyddog Deisebau am union ddyddiadau dechrau a diwedd y cyfnod a reoleiddir.

Faint y gallwch ei wario yn ystod y cyfnod a reoleiddir?

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir, mae'r terfynau gwariant fel a ganlyn:

- £500 ar gyfer ymgyrchwyr anghofrestredig
- £10,000 ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig

Gall unigolyn neu sefydliad cymwys gofrestru drwy hysbysu'r Swyddog Deisebau yn ysgrifenedig. Rhaid iddo wneud hynny **cyn** iddo wario mwy na £500 ar y ddeiseb yn cynnwys costau yr eir iddynt fel rhan o ymgyrch ar y cyd. Ceir rhagor o fanylion ar ymgyrchu ar y cyd ar dudalen 19.

Cysylltwch â'r Swyddog Deisebau yn y cyngor lleol perthnasol i gael manylion ar sut i gofrestru fel ymgyrchydd deisebau.

Pwy all gofrestru?

Y bobl a'r sefydliadau sy'n gymwys i gofrestru yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU, neu sy'n preswyllo yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU (gan gynnwys pleidiau 'llai')
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant, diwydiannol neu ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Pwy sy'n gyfrifol am wariant ar ddeiseb?

Mae rheolau ar waith i sicrhau y gellir cofnodi gwariant a rhoi gwybod amdano yn gywir. Mae dau fath o ymgyrchwyr; ymgyrchwyr **'cofrestredig'** ac **'anghofrestredig'**.

Ymgyrchwyr deisebau cofrestredig

Fel rhan o'r cais i ddod yn ymgyrchydd deisebau cofrestredig, rhaid i chi benodi 'unigolyn cyfrifol'. Ar ôl iddo gael ei benodi, rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y dilynr y rheolau ar wariant.

Dim ond y bobl ganlynol y caniateir iddynt fynd i gostau ar ddeisebau yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Ystyr 'mynd i gostau' yw gwneud ymrwymiad cyfreithiol i wario arian:

- yr unigolyn cyfrifol
- unrhyw un a awdurdodir yn ysgrifenedig gan yr unigolyn cyfrifol

Dylech sicrhau bod eich gwirfoddolwyr a'ch ymgyrchwyr yn ymwybodol o'r rheolau hyn ac yn gwybod pwy all ac na all fynd i gostau neu dalu costau.

Ymgyrchwyr deisebau anghofrestredig

Os ydych yn anghofrestredig, rhaid i chi gadw cofnod o'ch holl wariant ar ddeisebau er mwyn sicrhau nad ydych yn torri'r terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchydd anghofrestredig (gweler isod).

Beth sydd wedi'i gynnwys mewn gwariant ar ddeisebau?

Mae gwariant ar ddeisebau yn cynnwys costau:

- hysbysebion o unrhyw fath. Er enghraifft, posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau neu fideos YouTube
- deunydd a anfonwyd at bleidleiswyr yn ddigymell. Er enghraifft, llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost a anfonwch nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol

Os byddwch yn awdurdodi rhywun i fynd i gostau ar ddeiseb, mae'n arfer da nodi'n glir faint y gall ei wario ac ar beth.

- cludiant. Er enghraifft, ceir wedi'u llogi neu gludiant cyhoeddus y bydd yr ymgyrchydd deisebau neu'r unigolyn cyfrifol yn eu talu neu'n eu had-dalu
- cyfarfodydd cyhoeddus.
- staff. Er enghraifft, cyflog unigolyn cyfrifol, neu staff wedi'u secondio gan eu cyflogwyr i chi. Nid oes angen i chi gynnwys amser a dreulir ar eich ymgyrch gan wirfoddolwyr
- swyddfeydd. Er enghraifft, swyddfa'ch ymgyrch
- gweinyddu. Er enghraifft, biliau ffôn, deunydd ysgrifennu, llungopiâu a defnyddio cronfeydd data

Beth na chaiff ei gynnwys mewn gwariant ar ddeisebau?

Nid yw gwariant ar y pethau canlynol yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant:

- treuliau personol (gweler isod)
- unrhyw beth (ac eithrio hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan eich staff nad ydych yn eu talu amdano
- y defnydd o brif gartref rhywun
- y defnydd o gar personol rhywun neu gludiant arall
- cyfarpar cyfrifiadurol cyffredinol a brynir at ddefnydd personol

Cyfarfodydd cyhoeddus

Nid oes angen i chi gynnwys costau:

- digwyddiadau a gynhelir i aelodau eich sefydliad yn unig
- digwyddiadau a gynhelir yn bennaf at ddibenion ac eithrio'ch ymgyrch, lle mae'ch presenoldeb yn gysylltiedig - er enghraifft digwyddiad cymdeithasol blynyddol lle rydych yn dweud ychydig o eiriau

Weithiau, efallai na fydd yn hawdd penderfynu a ddylid cynnwys digwyddiad. Yn yr achosion hyn, dylech wneud asesiad gonest yn seiliedig ar y ffeithiau ynghylch a yw'r cyfarfod wir yn cael ei gynnal at ddibenion eraill.

Amser gwirfoddoli

Nid oes angen i chi gynnwys yr amser a dreulir ar weithgarwch ymgyrch deisebau gan wirfoddolwyr. Fodd bynnag, caiff arian a gaiff ei wario ar unrhyw adnoddau y byddwch yn eu darparu i'ch gwirfoddolwyr gyflawni gweithgareddau ymgyrch deisebau ei gynnwys. Er enghraifft, os byddwch yn llogi bws mini i gludo gwirfoddolwyr tra'u bod yn canfasio, bydd cost llogi'r bws yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

Weithiau efallai na fyddwch yn siŵr a yw rhywun yn wirfoddolwr neu a ddylai ei amser gael ei drin fel gwariant tybiannol. Er enghraifft, efallai fod yr unigolyn yn cynnig gwasanaethau tebyg yn broffesiynol i'r rhai y mae'n eu cyflawni i chi.

Mae'n debygol o fod yn wirfoddolwr os:

- na fydd ei gyflogwr yn talu am yr amser a dreulir ganddo ar eich ymgyrch, neu;
- mae'n cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, neu
- os yw'n hunangyflogedig ac na fyddwch yn elwa ar unrhyw yswiriant proffesiynol sydd ganddo

Os bydd yn defnyddio cyfarpar neu ddeunyddiau arbenigol, dylech ystyried a yw eu defnydd yn wariant tybiannol.

Treuliau personol

Mae treuliau personol yn cynnwys costau teithio, byw a chostau personol unrhyw staff neu ymgyrchwyr mewn perthynas â gweithgarwch ymgyrch deisebau y bydd unigolyn yn eu talu ei hun heb gael ad-daliad. Nid yw treuliau personol yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant, ac ni ddylid rhoi gwybod amdanynt ar y ffurflen gwariant.

Deunydd y gellir ei lawrlwytho

Os rhoddwch ddeunydd ar wefan i bobl ei argraffu at eu defnydd personol, fel posterï ffenestr neu ffurflenni deiseb, bydd y costau dylunio a chostau'r wefan yn cyfrif fel gwariant ar ddeisebau.

Nid oes angen i chi gyfrif costau argraffu pobl yn erbyn eich terfyn gwariant, oni bai bod pobl yn argraffu dogfennau ar eich rhan.

Os gallai'r deunydd gael ei argraffu a'i ddosbarthu i bleidleiswyr – er enghraifft, taflen – bydd angen i chi esbonio sut rydych yn disgwyl i bobl ei defnyddio.

Os byddwch yn awdurdodi defnydd ehangach o'r deunydd, gall y costau cynhyrchu gyfrif fel gwariant ar ddeisebau ni waeth pwy sy'n gwneud y gwaith argraffu.

Eitemau a roddir am ddim neu am bris gostyngol a 'gwariant tybiannol'

Efallai y byddwch yn talu am eitemau neu weithgareddau am gost is na'u gwerth masnachol. Er enghraifft:

- mae cyflenwr sy'n cefnogi'ch ymgyrch yn rhoi nwyddau neu wasanaethau i chi am bris gostyngol
- mae plaid wleidyddol neu sefydliad arall yn gadael i chi ddefnyddio swyddfa neu gyfleusterau eraill

Rhaid i chi gofnodi gwerth masnachol llawn yr eitemau neu'r gweithgareddau hyn fel gwariant ar ddeisebau os bodlonir y tri amod canlynol:

- os cewch yr eitem am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%
- mae'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gwerth masnachol a'r hyn a dalwch dros £50
- cânt eu defnyddio gan, neu ar ran, yr ymgyrchydd deiseb adalw

Bydd person ond yn defnyddio rhywbeth ar ran ymgyrchydd deiseb adalw os yw'r defnydd hwnnw wedi'i gyfarwyddo, ei awdurdodi neu ei annog gan yr ymgyrchydd deiseb adalw neu'r unigolyn cyfrifol (os yw'r ymgyrchydd wedi penodi un).

Os cewch ostyngiad o 10% neu lai, neu os yw'r gwahaniaeth mewn gwerth yn £50 neu lai, dim ond y swm a dalwch y mae'n rhaid i chi ei gofnodi.

Gelwir y gwahaniaeth rhwng y gwerth masnachol a'r pris a dalwch yn 'wariant tybiannol'.

Mae gwariant tybiannol sydd dros £500 hefyd yn rhodd. Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau ynglŷn â rhoddion yn Adran B o'r canllawiau hyn.

Prisio gwariant tybiannol

Os yw'r cyflenwr yn ddarparwr masnachol, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y mae'n eu codi ar gwsmeriaid eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi gan gyflenwyr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfradd arbennig nad yw ar gael ar y farchnad agored.

Mae'r rhyngwyd yn adnodd da o ran dod o hyd i gyfradd y farchnad am nwyddau a gwasanaethau.

tebyg yn ei godi am yr un nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel y gwerth masnachol.

Dylech gadw cofnod o'r modd y lluniwyd eich prisiad a chadw copïau o unrhyw ddyfynbrisiau a gewch.

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben, rhaid i'r unigolyn roi gwybod am bob eitem o wariant tybiannol dros £50. Rhaid i chi hefyd gynnwys y pris a daloch (os o gwbl) ar eich ffurflen gwariant. Rhaid i'r gwerth a gofnodwch fod yn asesiad gonest a rhesymol o'r gwerth masnachol.

Enghraifft:

Rydych yn cael defnyddio swyddfa y gallwch redeg eich ymgyrch deisebau ohoni am ddim. Rydych yn ei defnyddio am **6 wythnos** o'r cyfnod a reoleiddir.

Byddech yn cyfrifo ac yn rhoi gwybod am y gwariant tybiannol fel y'i nodir isod:

Cost arferol rhent am 6 wythnos:	£600
Y gost a godwyd arnoch:	£0

Gwariant tybiannol i roi gwybod amdano:	£600
---	------

Prisio staff ar secondiad

Os bydd cyflogwr yn secondio aelod o staff i'ch ymgyrch, rhaid i chi gofnodi ei gyflog gros ac unrhyw lwfansau ychwanegol fel y gwerth tybiannol.

Nid oes angen i chi gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol na phensiwn y cyflogwr. Bydd angen i chi gynnwys gwerth unrhyw dreuliau, fel costau teithio neu fwyd, rydych chi neu'r cyflogwr yn eu had-dalu.

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben, bydd yn rhaid i'r unigolyn cyfrifol lofnodi'r ffurflen i ddatgan ei bod yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

Mae'n drosedd i wneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid.

Eitemau a ddefnyddir yn rhannol ar gyfer eich ymgyrch

Weithiau, efallai y bydd angen i chi rannu eich costau rhwng gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ar ddeisebau a'r rhai nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ar ddeisebau, er enghraifft, rhwng:

- eitemau a ddefnyddiwyd cyn ac yn ystod y cyfnod a reoleiddir
- gwariant ar ddeisebau a gwariant ar weithgareddau eraill - er enghraifft, swyddfa a ddefnyddir ar gyfer pethau eraill yn ogystal â'ch ymgyrch deisebau

Ym mhob achos, dylech wneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant ar ddeisebau.

Weithiau, gall fod yn anodd gwneud rhaniad union gywir. Er enghraifft, os ydych yn rhannu swyddfa plaid, efallai mai dim ond dadansoddiad o gostau galwadau dros werth penodol y gall eich bil ffôn ei ddarparu.

Yn yr achosion hyn, dylech ystyried y ffordd orau o wneud asesiad gonest ar sail y wybodaeth sydd gennych. Er enghraifft, gallech gymharu'r bil ag un nad yw'n cwmpasu cyfnod a reoleiddir.

Costau staff

Bydd costau staff ar gyfer yr holl weithgarwch ymgyrchu yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant. Os oes gennych aelod o staff sy'n gweithio ar weithgarwch ymgyrchu yn ogystal â gwaith eich sefydliad arferol, bydd angen i chi gyfrif cyfran o gyflog yr aelod o staff sy'n adlewyrchu'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar yr ymgyrch deisebau.

Os oes gan eich sefydliad ffordd sefydledig o bennu'r costau hyn ar gyfer gwaith arall eisoes, gallwch benderfynu cyfrifo'r costau yr eir iddynt gan staff mewn perthynas â gweithgareddau ymgyrchu yn yr un ffordd.

Dylech wneud asesiad gonest a rhesymol o gyfran y costau staff y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant ar ddeisebau.

Am ragor o wybodaeth am rannu gwariant, gweler ein canllawiau:

[Papur arbenigol: Rhannu gwariant](#)

Gweithio gydag ymgyrchwyr deisebau eraill: ymgyrchoedd ar y cyd

Gallwch ddewis gweithio gydag un ymgyrchydd neu fwy mewn ymgyrch ar y cyd, efallai er mwyn sicrhau bod yr ymgyrch gyffredinol yn fwy effeithiol. Ceir rheolau arbennig ar gyfer pan fydd ymgyrchwyr deisebau yn cydweithio fel rhan o ymgyrch ar y cyd.

Pan fydd un ymgyrchydd yn gwario arian fel rhan o ymgyrch ar y cyd, bydd y gwariant hwnnw yn cyfrif tuag at y gwariant ar gyfer **pob** ymgyrchydd sy'n rhan o'r trefniant. Gelwir y rhain yn rheolau 'ymgyrchu ar y cyd'.

Mae'r rheolau ymgyrchu ar y cyd yn gymwys yn yr achosion canlynol:

- pan eir i wariant ar ymgyrch deisebau gan, neu ar ran, ymgyrchydd deisebau, a
- pan fydd y gwariant yn rhan o gynllun cyffredin neu drefniant arall ag ymgyrchydd neu ymgyrchwyr deisebau arall (a elwir yn '**gydweithio**')

Beth yw ystyr 'cydweithio'

Er mwyn bod yn rhan o ymgyrch ar y cyd, rhaid i chi fod yn cydweithio ag un ymgyrchydd deisebau arall neu fwy.

Mae cydweithio yn golygu mynd i wariant ar ddeisebau o ganlyniad i gynllun cyffredin neu drefniant rhwng un ymgyrchydd deisebau neu fwy yn ystod cyfnod a reoleiddir.

Yr egwyddor arweiniol

Rydym yn cydnabod y gall ymgyrchwyr fod wedi dod ynghyd i ymgyrchu mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ac y gall y ffyrdd y mae ymgyrchwyr yn rhyngweithio ag ymgyrchwyr eraill newid yn ystod ymgyrch. Bydd angen i chi benderfynu a ydych chi ac ymgyrchydd arall yn cydweithio mewn gwirionedd ac yn rhan o ymgyrch ar y cyd.

Er mwyn eich helpu i benderfynu p'un a ydych chi ac ymgyrchydd deisebau arall yn cydweithio ar ymgyrch ar y cyd, dylech gynnal asesiad gonest a rhesymol, yn seiliedig ar y ffeithiau, p'un a ydych chi ac ymgyrchydd deisebau arall yn gwario arian fel rhan o gynllun neu drefniant cyffredin.

Bydd hyn yn syml ar gyfer rhai enghreifftiau o wariant. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, gall fod yn anoddach penderfynu p'un a ydych yn gwario arian fel rhan o gynllun neu drefniant cyffredin.

Yn ein barn ni, nid ydych yn cydweithio o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os ydych yn cynnal trafodaethau anffurfiol gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn cynnwys gwneud penderfyniadau na chydgysylltu eich cynlluniau
- os ydych yn llefaru mewn digwyddiad a drefnwyd gan ymgyrchydd arall, ond nad ydych yn cymryd rhan mewn unrhyw ffordd arall
- os nad ydych yn ymgynghori ag ymgyrchwyr eraill am yr hyn y dylech ei ddweud yn eich ymgyrch neu sut y dylech ei threfnu.

Yn ein barn ni, mae'n debygol iawn eich bod yn cydweithio o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os oes gennych ymgyrchoedd hysbysebu, taflenni neu ddigwyddiadau ar y cyd
- os ydych yn cydgysylltu eich gweithgarwch ymgyrch deisebau gydag ymgyrchydd arall - er enghraifft, os ydych yn cytuno y dylai'r ddau ohonoch gwmpasu ardaloedd, dadleuon neu etholwyr penodol
- os gall ymgyrchydd arall gymeradwyo eich taflenni, gwefannau, neu weithgareddau ymgyrchu eraill, neu os oes ganddo ddylanwad sylweddol drostynt.

Mewn achosion o'r fath, dylech wneud asesiad gonest a rhesymol, yn seiliedig ar y ffeithiau, p'un a ydych chi ac ymgyrchydd arall yn cydweithio.

Ymgyrchu ar y cyd a'ch terfyn gwariant

Os bydd ymgyrchwyr deisebau yn cydweithio fel rhan o ymgyrch ar y cyd, rhaid i bob un o'r ymgyrchwyr deisebau hynny gofnodi costau cyfunol y gwariant ar ddeisebau ar yr ymgyrch honno oherwydd bydd yn cyfrif tuag at y terfynau gwariant ar gyfer pob ymgyrchydd deisebau dan sylw.

Os ydych am wario mwy na £500 ar wariant deisebau (yn cynnwys costau yr aed iddynt gan eich partneriaid ymgyrchu ar y cyd mewn ymgyrchoedd rydych yn cydweithio arnynt), rhaid i chi gofrestru â'r Swyddog Deisebau fel ymgyrchydd deisebau cofrestredig.

Os na wnewch gofrestru, neu os nad ydych yn gymwys i gofrestru, **ni chaniateir i chi** wario mwy na £500 yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar wariant ar ddeisebau; yn cynnwys gwariant yr eir iddo gan eich partneriaid ymgyrchu ar y cyd mewn ymgyrchoedd lle roeddech yn cydweithio.

Er enghraifft:

Rydych chi a dau ymgyrchydd deisebau arall yn cytuno i wario **£200** yr un ar ymgyrch ar y cyd. Mae hyn yn golygu mai **£600** yw cyfanswm y gwariant ar gyfer yr ymgyrch ar y cyd. Gan y bydd hyn dros y terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchwyr anghofrestredig, rhaid i bob ymgyrchydd gofrestru â'r Swyddog Deisebau cyn gwario dros y trothwy. Rhaid i chi roi gwybod am eich gwariant eich hun a gwariant eich ymgyrchydd ar y cyd ar eich ffurflen gwariant.

Rhoi gwybod am wariant ymgyrchu ar y cyd

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr deisebau cofrestredig roi gwybod am y gwariant yr aed iddo gan eu partneriaid ymgyrchu ar y cyd, neu ar eu rhan, yn eu ffurflen gwariant.

Mae hyn yn golygu os ydych yn ymgyrchydd deisebau anghofrestredig, bydd angen i chi anfon manylion yr hyn rydych wedi'i wario i unrhyw un o'n partneriaid ymgyrchu ar y cyd sydd wedi'u cofrestru, er mwyn iddynt allu rhoi gwybod amdano yn eu ffurflen. Gweler tudalen 45 am fanylion.

Cysylltwch â'r Swyddog Deisebau yn y cyngor lleol i gael manylion sut i gofrestru fel ymgyrchydd deisebau.

Y cofnodion y mae'n rhaid i chi eu cadw

Rhaid i **bob** ymgyrchydd deisebau gofnodi ei wariant ei hun ar ddeisebau. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ar gyfer ymgyrchwyr deisebau cofrestredig gynnwys y wybodaeth hon ar y ffurflen gwariant ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben. Gweler **Adran C** am ragor o wybodaeth.

Yr hyn y mae angen i chi ei gofnodi

Rhaid i chi gofnodi eich holl wariant ar ddeisebau.

Ar gyfer pob eitem o wariant ar ddeisebau yr eir iddo yn ystod y cyfnod a reoleiddir **ac** ar ôl cofrestru, rhaid i chi gofnodi'r wybodaeth ganlynol i'w rhoi ar eich ffurflen gwariant:

- ar gyfer beth roedd y gwariant - er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth
- dyddiad y gwariant

Ar ôl iddo gael ei benodi, rhaid i'r unigolyn cyfrifol gadw anfonebau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw daliadau o **£20** neu fwy.

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben, rhaid i'r unigolyn cyfrifol ar gyfer ymgyrchwyr deisebau cofrestredig fodloni terfynau amser ar gyfer:

- derbyn a thalu anfonebau
- cyflwyno ffurflen gwariant a rhoddion i'r Swyddog Deisebau

Nodir y terfynau amser hyn, a rhagor o wybodaeth am roi gwybod am wariant, yn **Adran C** o'r canllawiau hyn.

Rhaid i bob cost gynnwys TAW, hyd yn oed os gallwch adennill taliadau TAW.

Rhaid i chi gynnwys gwerth masnachol llawn eitemau neu wasanaethau a roddwyd i chi am ddim neu a roddwyd i chi am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%.

Gweler tudalen 17 ar wariant tybiannol i gael rhagor o wybodaeth.

Adran B – Rhoddion i ymgyrchwyr deisebau cofrestredig

Mae'r adran hon yn esbonio'r rheolau ynglŷn â rhoddion; sut i gadarnhau y gellir derbyn rhodd a pha wybodaeth y mae angen i chi ei chofnodi.

Trosolwg o'r rheolau

Dim ond rhoddion o arian, eitemau neu wasanaethau tuag at eu gwariant ymgyrchu gan ffynonellau penodol, a leolir yn y DU yn bennaf, y gall ymgyrchwyr deisebau cofrestredig eu derbyn.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ar gyfer ymgyrchydd deisebau cofrestredig gadarnhau bod rhoddion o ffynonellau a ganiateir cyn eu derbyn.

Os ydych yn AS neu'n aelod o blaid wleidyddol sy'n gofrestrdig fel ymgyrchydd deisebau unigol, mae hyn yn cynnwys rhoddion gan eich plaid wleidyddol eich hun.

Rhaid i ymgyrchwyr deisebau cofrestredig roi gwybod am roddion a dderbyniwyd ganddynt o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir, ac eithrio pleidiau gwleidyddol (nad ydynt yn bleidiau 'llai'). Y rheswm dros hyn yw am fod pleidiau gwleidyddol yn rhoi gwybod am roddion a benthyciadau i ni bob chwarter.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lofnodi'r ffurflen i ddatgan ei bod yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth.

Bydd rhoddion y rhoddir gwybod amdanynt i'r Swyddog Deisebau ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd.

Mae i'r adran hon o'r canllawiau ddwy ran:

Mae **Rhan Un** yn esbonio'r rheolau ynglŷn â rhoddion, a chan bwy y gallwch eu derbyn.

Mae **Rhan Dau** yn esbonio'r gwiriadau y bydd angen i chi eu gwneud ar fathau gwahanol o roddwyr, a'r wybodaeth y bydd angen i chi ei chofnodi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am roi gwybod am roddion ar ôl i'r ddeiseb gau yn **Adran C**.

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at unigolyn cyfrifol cofrestredig ymgyrchydd deisebau.

Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen gwariant a rhoddion [yma](#).

Rhan Un - Rhoddion

Pwy sy'n gyfrifol am roddion?

Fel rhan o'r cais i ddod yn ymgyrchydd deisebau cofrestredig, rhaid i chi benodi 'unigolyn cyfrifol'. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y dilynir y rheolau ar roddion. Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addas er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â rhoddion yn gywir.

Pan fydd sefydliad wedi cofrestru fel ymgyrchydd deisebau a'i fod yn penodi unigolyn cyfrifol, rhaid i swyddogion eraill yn y sefydliad roi gwybodaeth berthnasol i'r unigolyn cyfrifol, os bydd yn ofynnol yn rhesymol, er mwyn sicrhau y gellir cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol.

Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, eiddo, nwyddau neu wasanaethau a roddir:

- tuag at eich gwariant ar ddeisebau
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol

ac mae ganddi werth o dros **£500**. Nid ystyrir bod unrhyw beth sy'n £500 neu lai yn rhodd. Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- rhodd arian neu fath arall o eiddo
- talu anfoneb ar gyfer gwariant ar ddeisebau a fyddai fel arall yn cael ei thalu gennych chi
- benthyciad nas rhoddwyd ar delerau masnachol
- noddi digwyddiad neu gyhoeddiad
- defnydd am ddim, neu am bris gostyngol arbennig, o eiddo neu gyfleusterau, er enghraifft defnydd am ddim o swyddfa
- ffioedd aelodaeth (heb gynnwys ymgyrchwyr deisebau cofrestredig unigol)

Mae'r rheolau ar roddion yn cwmpasu rhoddion a gewch tuag at wariant ymgyrchoedd a reoleiddir a gewch cyn y cyfnod a reoleiddir a chyn i chi gofrestru.

Gan bwy y gallwch dderbyn rhodd?

Dim ond o ffynhonnell a ganiateir y gallwch dderbyn rhoddion. Ffynhonnell a ganiateir yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, gan gynnwys etholwyr tramor
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- plaid wleidyddol wedi'i chofrestru yng Ngogledd Iwerddon (dim ond os caiff y ddeiseb ei hagor mewn etholaeth yng Ngogledd Iwerddon).
 - cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Er y gallwch dderbyn yn gyfreithiol roddion gan elusennau sy'n gwmnïau cofrestredig, ni chaniateir i elusennau wneud rhoddion gwleidyddol fel arfer o dan gyfraith elusennau. Dylech gadarnhau bod unrhyw elusen sy'n cynnig rhodd wedi cael cyngor gan y rheoleiddiwr elusennau perthnasol yn y DU cyn ei derbyn.

Sut rydych yn penderfynu p'un a allwch dderbyn rhodd?

Pan fyddwch yn cael unrhyw rodd o fwy na £500, rhaid i chi sicrhau ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr a bod y rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir.

Pan fyddwch yn cael rhodd, bydd gennych 30 diwrnod i benderfynu p'un a allwch ei derbyn ai peidio.

Dylech ofyn i chi'ch hun:

- 'a wyf yn siŵr fy mod yn gwybod pwy sydd wedi rhoi'r rhodd hon?'
- 'a yw'r rhoddwr yn un a ganiateir?'

Os

- nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu
- am unrhyw reswm arall na allwch fod yn siŵr gan bwy yn union y rhoddwyd y rhodd

rhaid i chi ei dychwelyd o fewn cyfnod o 30 diwrnod. Os na wnewch hynny, tybir eich bod wedi'i derbyn, ac efallai y byddwn yn gwneud cais i'r llysoedd am i'r rhodd gael ei fforffedu.

Os ydych wedi derbyn rhodd nas caniateir, dylech ddweud wrthym mor fuan â phosibl.

Rhoddion a roddir ar ran eraill

Os rhoddir rhodd ar ran rhywun arall, rhaid i'r person sy'n rhoi'r rhodd i chi (yr asiant) ddweud wrthyich:

- bod y rhodd ar ran rhywun arall
- manylion y rhoddwr gwirioneddol

Un enghraifft o rywun yn gweithredu fel asiant yw lle mae trefnydd digwyddiad yn trosglwyddo'r enillion o ginio a gynhaliwyd yn benodol i godi arian ar ran eich sefydliad.

Os oes gennych reswm dros gredu bod rhywun yn gweithredu fel asiant o bosibl ond nad yw wedi dweud wrthyich, dylech ganfod y ffeithiau fel y gallwch wneud y gwiriadau priodol. **Os nad ydych yn siŵr pwy yw'r rhoddwr gwirioneddol rhaid i chi beidio â derbyn y rhodd.**

Os nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu os na allwch fod yn siŵr pwy yw'r ffynhonnell mewn gwirionedd am unrhyw reswm, rhaid i chi ei dychwelyd o fewn 30 diwrnod.

Pryd rydych yn 'cael' rhodd?

Rydych fel arfer yn 'cael' rhodd ar y diwrnod rydych yn dod yn berchen arni.

Er enghraifft:

- os rhoddir taflenni am ddim i chi, rydych yn cael y rhodd pan gaiff y taflenni eu trosglwyddo i chi.
- os rhoddir siec i chi, rydych yn cael y rhodd ar y diwrnod y mae'r siec yn cael ei chlirio.
- os trosglwyddir rhodd yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc rydych yn cael y rhodd ar y dyddiad mae'n cyrraedd eich cyfrif

Sut rydych yn dychwelyd rhodd?

Os gwyddoch pwy yw'r rhoddwr, rhaid i chi dychwelyd y rhodd ato.

Os daw'r rhodd o ffynhonnell anhysbys (er enghraifft, rhodd ariannol o £600 yn ddienw), rhaid i chi ei dychwelyd at:

- y sawl a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu
- y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd.

Os nad ydych yn gwybod pwy yw'r naill na'r llall, rhaid i chi anfon y rhodd i'r Comisiwn Etholiadol. Byddwn yn ei thalu i mewn i gronfa gyfunol y Llywodraeth.

Os byddwch wedi ennill llog ar y rhodd cyn i chi ei dychwelyd, gallwch ei gadw. Ni chaiff y llog hwn ei drin fel rhodd ac nid oes angen rhoi gwybod amdano.

Sut rydych yn prasio rhodd?

Rhaid i chi bennu gwerth unrhyw rodd nad yw'n arian parod. Gwerth y rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn a gewch a'r swm (os o gwbl) a dalwch amdano.

Os cewch eiddo, nwyddau neu wasanaethau:

- am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, ac
- mae'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gwerth masnachol a'r hyn a dalwch dros £500

rhaid i chi eu prasio ar gyfradd y farchnad. Er enghraifft:

Cyfradd y farchnad am nwyddau	-	Y pris a dalwch	=	Gwerth y rhodd
£800	-	£200	=	£600

Neu:

Cyfradd y farchnad am wasanaethau	-	Y pris a dalwch	=	Gwerth y rhodd
£800	-	£0	=	£800

Os mai darparwr masnachol yw'r rhoddwr, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y mae'n eu codi ar gwsmeriaid eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un eiddo, nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel y gwerth masnachol.

Dylech gadw cofnod o'r modd y lluniwyd eich prisiad.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi gan gyflenwyr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfradd arbennig nad yw ar gael ar y farchnad agored.

Prisio rhodd drwy nawdd

Os bydd rhywun yn noddi cyhoeddiad, astudiaeth, ymchwil neu ddigwyddiad ar ran yr ymgyrchwr deisebau, gwerth y rhodd yw'r swm llawn a dalwyd ganddo.

Ni ddylech ddidynnu unrhyw symiau ar gyfer unrhyw fudd y mae'n ei gael drwy'r nawdd.

Rhoddir rhagor o wybodaeth yn ein

[Taflen Ffeithiau:
Nawdd](#)

Pa gofnodion sydd angen i chi eu cadw?

Rhoddion a dderbyniwyd gennych

Os derbyniwch rodd gwerth dros £500, rhaid i chi gofnodi'r manylion hyn:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os mai cwmni yw'r rhoddwr, rhif cofrestru'r cwmni
- y swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu natur a gwerth y rhodd (ar gyfer rhodd anariannol)
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y derbynioch y rhodd

Os mai unigolyn yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi ei gyfeiriad fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr berthnasol. Os mai etholwr tramor yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi ei gyfeiriad cartref, a hynny am na fydd unrhyw gyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr.

Os mai cwmni yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad cofrestredig y rhoddwr a rhif y cwmni fel y mae'n ymddangos ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

Os mai cymdeithas anghorfforedig yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa, a hynny am nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig y gellir cyfeirio ati.

Rhoddion a ddychwelwyd gennych

Os cewch rodd o ffynhonnell nas caniateir neu na ellir ei nodi, rhaid i'r unigolyn cyfrifol ei dychwelyd (gweler tudalen 29) a chofnodi'r manylion canlynol:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr os yw'n hysbys neu, os nas caniateir, y modd y gwnaed y rhodd.
- swm neu werth natur y rhodd
- os nad ydych yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, manylion am sut y rhoddwyd y rhodd
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y dychwelwyd y rhodd gennych
- y camau a gymerwyd gennych i ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, yr unigolyn neu'r sefydliad y dychwelwyd y rhodd iddynt)

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben

Bydd angen i chi gofnodi'r manylion hyn ar eich ffurflen gwariant a rhoddion. Mae rhagor o wybodaeth am y ffurflen, a phryd y bydd angen i chi ei dychwelyd, yn Adran C.

Ymgyrchwy'r deisebau cofrestredig sy'n aelodau o bleidiau neu'n ddeiliaid swyddi etholedig

Os ydych yn aelod o blaid wleidyddol gofrestrredig neu os ydych yn dal un o'r swyddi a restrir isod, mae angen i chi ddilyn y rheolau ynglŷn â rhoddion a benthyciadau a roddir i chi ar gyfer eich gweithgarwch gwleidyddol. Galwn yr unigolion hyn yn 'dderbynwyr a reoleiddir'. Efallai y bydd angen rhoi gwybod am rai rhoddion o dan yr ymgyrchydd deisebau **a'r** rheolau ynglŷn â rhoddwyr a reoleiddir.

Rydych yn rhoddwr a reoleiddir os ydych yn un o'r canlynol:

- aelod o blaid wleidyddol gofrestrredig
- cymdeithas aelodau
- Maer Llundain neu unrhyw faer etholedig arall
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
- aelod o
 - Senedd yr Alban
 - Senedd yr Alban
 - Senedd Cymru
 - Cynulliad Gogledd Iwerddon
 - unrhyw awdurdod lleol yn y DU (ac eithrio cynghorau plwyf neu gymuned
 - Awdurdod Llundain Fwyaf

Os ydych yn rhoddwr a reoleiddir, dylech ddarllen ein canllawiau ar y rheolau hyn ar ein **gwefan**.

Rhan Dau - Sut i gadarnhau eich bod yn gallu derbyn rhodd

Cyn i chi dderbyn unrhyw rodd o fwy na £500 at ddibenion gwariant ar ddeisebau, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i:

- sicrhau eich bod yn gwybod pwy yw'r ffynhonnell wirioneddol
- cadarnhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir

Mae gennych 30 diwrnod i wneud hyn, a dychwelyd y rhodd os na allwch ei derbyn. Os cadwch rodd am fwy na 30 diwrnod, tybir eich bod wedi ei derbyn. Os cadwch rodd nas caniateir ar ôl y cyfnod hwn, efallai y byddwn yn gwneud cais i'r llysoedd am iddi gael ei fforffedu.

Rhoddion gan unigolion

Beth sy'n gwneud unigolyn yn rhoddwr a ganiateir?

Rhaid i unigolion fod ar un o gofrestrau etholwyr y DU ar adeg rhoi'r rhodd. Mae hyn yn cynnwys etholwyr tramor.

Sut rydych yn cadarnhau bod cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Gallwch ddefnyddio'r gofrestr etholwyr i gadarnhau a yw unigolyn yn rhoddwr a ganiateir. Mae hawl gan ymgyrchwyr deisebau cofrestredig i gael copi am ddim o'r gofrestr etholwyr lawn.

I gael copi o'r gofrestr, dylech gysylltu â'r adran cofrestru etholiadol yn y cyngor lleol perthnasol, neu Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon, fel sy'n briodol, gan egluro eich bod yn gofyn amdano fel ymgyrchydd deisebau cofrestredig.

Dylech hefyd ofyn i'r adran anfon yr holl ddiweddariadau i'r gofrestr atoch hefyd.

Rhaid i chi edrych ar y gofrestr a'r diweddariadau'n ofalus, er mwyn sicrhau bod y person ar y gofrestr ar y dyddiad y cawsoch y rhodd.

O dan amgylchiadau arbennig, mae gan bobl gofrestriad dienw. Os oes rhoddwr wedi'i gofrestru'n ddiennw cysylltwch â ni i gael cyngor.

Dim ond er mwyn cadarnhau a yw rhoddwr yn rhoddwr a ganiateir neu at ddibenion etholiadol eraill y cewch ddefnyddio'r gofrestr. Rhaid i chi beidio â'i rhoi i unrhyw un arall.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- enw llawn y rhoddwr
- y cyfeiriad fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr, neu os mai etholwr tramor yw'r person, ei gyfeiriad cartref.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol nodi rhif etholiadol y rhoddwr fel cofnod o'ch gwiriad.

Rhoddion gan gwmnïau

Beth sy'n gwneud cwmni yn rhoddwr a ganiateir?

Mae cwmni yn rhoddwr a ganiateir os yw:

- wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a
- os yw wedi'i gorffori yn y DU yn cynnal busnes yn y DU

Rhaid i chi fod yn siŵr bod y cwmni yn bodloni pob un o'r tri maen prawf.

Sut y gallaf gadarnhau cofrestrriad cwmni?

Dylech edrych ar y gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth Webcheck am ddim yn www.gov.uk/companies-house.

Dylech edrych ar gofnod cofrestru llawn y cwmni.

Er mwyn cadarnhau bod y cwmni yn rhoddwr a ganiateir, bydd angen i chi edrych ar ei rif cofrestru. Dim ond rhif fydd gan rai cwmnïau. Mae gan gwmnïau eraill lythyren fel rhagddodiad i'r rhif.

Mae'r tabl isod yn dangos i chi a yw cwmni â rhagddodiad penodol yn rhoddwr a ganiateir, cyhyd â'i fod hefyd yn cynnal busnes yn y DU.

Llythyren rhagddodiad	A yw'n rhoddwr a ganiateir?
Dim	Ydy
NI, SC	Ydy
OC, SO, NC	Ydy, fel partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig – gweler yr adran ar wahân isod
IP, SP, NP, NO	Efallai – gweler cymdeithasau diwydiannol a darbodus yn yr adran 'Mathau eraill o roddwr' ar dudalen 32
Unrhyw ragddodiad arall	Nac ydy

Sut rydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU?

Rhaid i chi fodloni'ch hun bod y cwmni yn cynnal busnes yn y DU. Gall y busnes fod yn un nid er elw.

Hyd yn oed os ydych yn gyfarwydd â'r cwmni eich hun, dylech edrych ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau er mwyn gweld:

- a yw'r cwmni yn cael ei ddiddymu, yn segur, neu ar fin cael ei ddileu o'r gofrestr
- a yw cyfrifon a ffurflen flynyddol y cwmni yn hwyr

Mae'n bosibl bod cwmni yn dal i gynnal busnes os yw'n cael ei ddiddymu, yn segur neu'n hwyr yn cyflwyno dogfennau, ond dylech wneud gwiriadau ychwanegol er mwyn bodloni'ch hun mai felly y mae.

O ran unrhyw gwmni, dylech ystyried edrych ar y canlynol:

- gwefan y cwmni
- cyfeirlyfrau ffôn neu wefannau dibynadwy masnachau perthnasol
- y cyfrifon diweddaraf a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau

Os nad ydych yn siŵr o hyd bod cwmni yn rhoddwr a ganiateir ar ôl gwneud eich gwiriadau, [e-bostiwch](#) neu ffoniwch ni i gael cyngor.

Os nad ydych yn siŵr o hyd bod cwmni yn rhoddwr a ganiateir ar ôl gwneud eich gwiriadau, **e-bostiwch** neu ffoniwch ni i gael cyngor.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- yr enw fel y mae'n ymddangos ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau
- cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni
- rhif cofrestru'r cwmni.

Rhoddion gan bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

Beth sy'n gwneud partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir?

Mae partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir:

- os yw wedi'i chofrestru partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn Nhŷ'r Cwmnïau
- yn cynnal busnes yn y DU

Sut rydych yn cadarnhau bod cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Dylech edrych ar y gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth Webcheck am ddim yn www.gov.uk/companies-house.

Bydd angen i chi edrych ar rif cofrestru'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Dim ond rhifau sy'n dechrau gydag OC, SO neu NC sy'n bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig a ganiateir.

Fel yn achos cwmnïau, rhaid i chi fodloni'ch hun bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cynnal busnes yn y DU. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn yr adran flaenorol 'Sut rydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU?' ar dudalen 37.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- yr enw fel y mae'n ymddangos ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau
- cyfeiriad swyddfa gofrestredig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Dylech hefyd gofnodi rhif cofrestru'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Rhoddion gan gymdeithasau anghorfforedig

Beth sy'n gwneud cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Mae cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir:

- os bydd ganddi fwy nag un aelod
- os yw'r brif swyddfa yn y DU
- os yw'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Sut rydych yn cadarnhau bod cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Nid oes unrhyw gofrestr o gymdeithasau anghorfforedig. Mae p'un a yw'n rhoddwr a ganiateir yn fater ffeithiol ym mhob achos.

Yn gyffredinol, dylai fod gan gymdeithas anghorfforedig:

- aelodaeth adnabyddadwy, a
- rheolau neu gyfansoddiad, a
- bodolaeth ar wahân i'w haelodau

Er enghraifft, gall clybiau aelodau fod yn gymdeithasau anghorfforedig weithiau.

Rhaid i chi sicrhau bod gan y gymdeithas anghorfforedig fwy nag un aelod a bod ei phrif swyddfa yn y DU. Rhaid i chi gadarnhau bod y gymdeithas anghorfforedig yn cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU. Gallwch gael rhagor o

wybodaeth am gynnal busnes yn yr adran flaenorol 'Sut rydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU?' ar dudalen 37.

Os nad ydych yn siŵr a yw cymdeithas yn bodloni'r meini prawf, dylech ystyried a yw'r rhodd gan yr unigolion ynddi mewn gwirionedd (yn hytrach na'r gymdeithas) neu a oes rhywun yn y gymdeithas yn gweithredu fel asiant dros eraill.

Os credwch mai felly y mae, rhaid i chi gadarnhau bod pob un o'r unigolion a gyfrannodd fwy na £500 yn rhoddwyr a ganiateir a'u trin fel y rhoddwyr.

Os hoffech gael mwy o gyngor ar p'un a yw cymdeithasau anghorfforedig yn rhoddwyr a ganiateir mewn achosion penodol, cysylltwch â ni

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- enw'r gymdeithas anghorfforedig
- prif gyfeiriad y gymdeithas anghorfforedig.

Mathau eraill o roddwyr

Mae'r tabl isod yn dangos sut rydych yn cadarnhau bod mathau eraill o roddwr yn rhoddwyr a ganiateir.

Math o roddwr	Gofyniad	Ble i edrych
Plaid wleidyddol	Os yw'r ddeiseb ar gyfer etholaeth yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr Prydain Fawr o bleidiau gwleidyddol Os yw'r ddeiseb ar gyfer etholaeth yng Ngogledd Iwerddon, rhaid bod y blaid wleidyddol wedi'i chofrestru ar gofrestr Prydain Fawr NEU gofrestr Gogledd Iwerddon o bleidiau gwleidyddol	Y Comisiwn Etholiadol search.electoralcommission.org.uk
Undeb llafur	Wedi'i restru'n undeb llafur gan y Swyddog Ardystio	Y Swyddog Ardystio www.certoffice.org
Cymdeithas adeiladu	Cymdeithas adeiladu o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986	Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk
Cymdeithas lesiant / ddiwydiannol neu ddarbodus	Wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Llesiant 1974 neu Ddeddf Cymdeithasau Darbodus a Diwydiannol 1965	Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- enw'r rhoddwr
- y cyfeiriad, fel y mae'n ymddangos, ar y gofrestr berthnasol.

Adran C - Cyfrifoldebau ymgyrchwyr deisebau cofrestedig ar ôl yr etholiad

Mae'r adran hon yn esbonio sut i roi gwybod am eich gwariant ar ddeisebau a rhoddion ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben.

Beth sy'n rhaid i ymgyrchwyr deisebau cofrestredig ei wneud ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben

Ar ôl i'r ddeiseb ddod i ben, rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau'r canlynol:

- y caiff pob anfoneb ei derbyn o fewn **21 diwrnod** yn dechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod a reoleiddir
- y caiff pob anfoneb ei thalu o fewn **28 diwrnod** yn dechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod a reoleiddir
- cyflwyno manylion y gwariant ar ddeisebau a rhoddion i'r Swyddog Deisebau, neu ar gyfer deisebau yng Ngogledd Iwerddon, i'r Prif Swyddog Etholiadau ar gyfer Gogledd Iwerddon, o fewn **30 diwrnod** yn dechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod a reoleiddir.

Nid oes raid i ymgyrchwyr deisebau anghofrestredig gyflwyno ffurflen i'r Swyddog Deisebau na chydymffurfio â'r terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau.

Terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau

Derbyn anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi gael pob anfoneb ar gyfer eich gwariant ar ddeisebau gan gyflenwyr o fewn **21 diwrnod** i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir.

Os nad ydych wedi **derbyn** anfoneb o fewn **21 diwrnod**, ni allwch dalu'r anfoneb heb orchymyn llys yn rhoi caniatâd i chi dalu'r anfoneb. Rhaid i chi roi gwybod am y rhain fel **'hawliadau heb eu talu'** ar eich ffurflen gwariant.

Talu anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau gan gyflenwyr o fewn **28 diwrnod** i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir. Os na thalwch anfoneb o fewn **28 diwrnod**, rhaid i chi gael gorchymyn llys i allu gwneud hynny. Rhaid i chi roi gwybod am y rhain fel **'hawliadau heb eu talu'** ar eich ffurflen gwariant.

Rhaid i chi gyflwyno ffurflen gwariant o hyd os ydych yn ymgyrchydd deisebau cofrestredig, hyd yn oed os nad ydych wedi gwario unrhyw arian.

Daw'r **cyfnod a reoleiddir** i ben ar y diwrnod y bydd y Swyddog Deisebau yn hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad y ddeiseb neu pan fydd y ddeiseb wedi dod i ben cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos.

Gall fod yn drosedd talu anfoneb os na chedwir at y terfynau amser hyn heb orchymyn llys. Dylech hysbysu eich cyflenwyr o hyn.

Am unrhyw hawliad sy'n cael ei dalu:

- ar ôl y terfyn amser o 21 diwrnod i dderbyn anfoneb; neu
- ar ôl y terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer taliadau,

ar ôl cais llwyddiannus i'r llys, ac ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ar ddeisebau, **rhaid** i'r unigolyn cyfrifol roi gwybod am y taliad yn ysgrifenedig i'r Swyddog Deisebau o fewn saith diwrnod i'w dalu, ynghyd â chopi o'r gorchymyn llys.

Cwblhau'ch ffurflen

Gelwir y ffurflenni gwariant a rhoddion yn 'ffurflen' ('return' yn Saesneg) gyda'i gilydd.

Y ffurflen gwariant

Gwariant cyn cofrestru

Rhaid i chi roi cyfanswm ar gyfer yr holl wariant yr aethoch iddo cyn i chi gofrestru.

Mae hyn yn cynnwys gwariant tybiannol ac unrhyw wariant ymgyrchu ar y cyd gan eich partneriaid ymgyrchu ar y cyd.

Gwariant ar ddeisebau a gwariant tybiannol

Ar gyfer gwariant yr aed iddo ar ôl i chi gofrestru, rhaid i chi roi gwybod am bob eitem o wariant yr aed iddo:

- ar gyfer beth roedd y gwariant - er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth

a nodi'r canlynol ar gyfer pob eitem o wariant:

- a ywn 'wariant tybiannol' – gweler tudalen 13)
- yr aed iddo fel rhan o ymgyrch ar y cyd, neu
- a yw'n hawliad heb ei dalu neu'n hawliad sy'n destun anghydfod

Rhaid i chi ddarparu anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad dros £20 (heb gynnwys gwariant tybiannol).

Rhoi gwybod am ymgyrchoedd ar y cyd

Rhaid i chi hefyd roi gwybod am yr holl wariant yr eir iddo gan eich partneriaid ymgyrchu ar y cyd mewn ymgyrchoedd lle roeddech yn cydweithio (hyd yn oed os nad oedd eich ymgyrchydd ar y cyd yn gofrestredig).

Ar gyfer gwariant pob ymgyrchydd ar y cyd cyn cofrestru, mae'n rhaid i chi wybod beth yw'r cyfanswm, ac mae'n rhaid i chi roi gwybod amdano fel rhan o'ch cyfanswm ar gyfer gwariant cyn cofrestru.

Ar gyfer yr holl wariant yr aed iddo **ar ôl** iddo gofrestru, rhaid i chi roi gwybod am bob eitem o wariant yr aed iddo:

- ar gyfer beth roedd y gwariant - er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth

Nid oes angen i chi ddarparu anfonebau ar gyfer gwariant yr aed iddo gan eich partneriaid ymgyrchu ar y cyd.

Y ffurflen gwariant

Rhaid i ymgyrchwyr deisebau cofrestredig roi gwybod am roddion a dderbyniwyd ganddynt o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir, ac eithrio pleidiau gwleidyddol (nad ydynt yn bleidiau 'llai').

Ar gyfer rhoddion a ganiateir dros £500, rhaid i'r ffurflen gynnwys:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os mai cwmni yw'r rhoddwr, rhif cofrestru'r cwmni

- y swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu natur a gwerth y rhodd (ar gyfer rhodd anariannol)
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y derbynioch y rhodd

Ar gyfer rhoddion nas caniateir dros £500, rhaid i'r ffurflen gynnwys:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr os yw'n hysbys neu, os nas caniateir, y modd y gwnaed y rhodd.
- swm neu werth natur y rhodd
- os nad ydych yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, manylion am sut y rhoddwyd y rhodd
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y dychwelwyd y rhodd gennych
- y camau a gymerwyd gennych i ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, yr unigolyn neu'r sefydliad y dychwelwyd y rhodd iddynt)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y manylion y mae'n rhaid i chi eu cofnodi ar gyfer pob rhodd yn Adran B o'r canllawiau hyn.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lofnodi'r ffurflen i ddatgan ei bod yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid

Ble y gallwch ddod o hyd i'r ffurflen gwariant

Rydym hefyd yn paratoi ffurflenni a nodiadau esboniadol y gallwch eu defnyddio ar gyfer eich ffurflen:

- [PDF](#)
- [Excel](#)
- [Nodiadau eglurhaol](#)

Maent yn cwmpasu'r holl wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chynnwys. Ceir rhagor o wybodaeth ar gyfer ymgyrchwyr deisebau ar ein [tudalen canllawiau](#).

Sut y gallwn helpu

Gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch gysylltu â ni i gael cyngor ar argraffnodau, gwariant a rhoddion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Cysylltwch â'r swyddog deisebau i gael manylion ar sut i gofrestru.

Ffoniwch ni ar 0333 103 1929 neu 0333 103 1929 (Saesneg)

Neu e-bostiwch

- Cymru: gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr: pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru>

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk.